Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Cyhoeddi Ymchwil ar y Defnydd o Gontractau Dim Oriau mewn Gwasanaethau Cyhoeddus Datganoledig** |
| **DYDDIAD** | **7 Gorffennaf 2015** |
| **GAN** | **Leighton Andrews AC, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus** |

Ar 10 Rhagfyr, cyhoeddais Ddatganiad Ysgrifenedig ynghylch ymchwil i'r defnydd o gontractau dim oriau mewn gwasanaethau cyhoeddus yn sgil pryderon am eu defnydd a'r effaith ar weithwyr.

Cyhoeddwyd yr ymchwil heddiw ac mae ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn:
http://gov.wales/statistics-and-research/research-use-zero-hours-contracts-devolved-welsh-public-services/?lang=cy

Mae'r ymchwil yn dangos yr amryw amgylchiadau lle defnyddir contractau dim oriau ar draws gwasanaethau cyhoeddus, ac mae hefyd yn tynnu sylw at faterion ynghylch eu defnydd y mae angen eu hystyried ymhellach a chymryd camau yn eu cylch.

Mae'r materion yn cynnwys effaith ansicrwydd enillion ar weithwyr, rhag-rybudd digonol o waith, rhybudd a iawndal digonol am ganslo gwaith, dosbarthiad teg o waith, a hawliau cyflogaeth fel gwyliau blynyddol, tâl salwch a thâl dileu swydd.

Mae'r ymchwil hefyd yn tynnu sylw at bryderon penodol ynghylch y defnydd o gontractau dim oriau mewn gwasanaethau cyhoeddus sy'n cael eu gosod ar gontract, yn enwedig mewn perthynas â gwasanaethau gofal cartref sydd eisoes yn cael eu hystyried gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Rwyf felly'n bwriadu gofyn i'r Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus anstatudol newydd, ar ôl ei sefydlu yn yr hydref, ddatblygu canllawiau penodol i fynd i'r afael â phryderon a nodwyd ynghylch contractau dim oriau. Bydd hyn yn gosod disgwyliadau clir o ran arferion y dylem eu disgwyl gan bob cyflogwyr sector cyhoeddus i sicrhau na chaiff contractau dim oriau eu defnyddio mewn ffordd amhriodol. Ochr yn ochr â hyn, bwriedir cyhoeddi Hysbysiad Cyngor Caffael hefyd i osod disgwyliadau tebyg ar gyfer contractwyr gwasanaethau cyhoeddus. Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i'r gweithlu gwasanaethau cyhoeddus a bydd yn helpu i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus i bobl ledled Cymru.